# <u>Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd</u>

**Ysgol Llanbedrog**

***Dyddiad Cymeradwyo:*** Tymor y Gwanwyn 2019

***Dyddiad Adolygu:*** Tymor y Gwanwyn 2022

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** *Alaw Ceris*

**Dyddiad:** 29/3/22

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**1. Cyflwyniad i'r Polisi**

Mae Ysgol Llanbedrog yn anelu i ddarparu cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol bob disgybl er mwyn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn.#

Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac y bydd disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teulu. Bydd ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn anelu i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi disgyblion i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol.

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi cytuno bod ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen ac yn datblygu trwy Gyfnod Allweddol 2. Bydd un aelod o'r Corff Llywodraethol yn cymryd cyfrifoldeb llywodraethol dros Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Cynlluniwyd a darperir rhaglen addysgu'r ysgol yn unol â'r hyn a nodwyd yn:

- Canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Mewn Ysgolion, 019/2010 (Llywodraeth Cymru, 2010)
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2008)
- Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2008)
- Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008)

Bydd ystyried i:

- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru (Llywodraeth Cymru,, 2008)
- Canllawiau Parchu Eraill, Atal Bwlio (Llywodraeth Cymru 2011)
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Cysylltiad â pholisïau eraill yr ysgol:

- Polisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Polisi Gwrth fwlio
- Polisi ymddygiad
- Cynllun Cydraddoldeb yr ysgol

Y Broses Ymgynghori:

Rydym yn ymgynghori â rhieni'r ysgol trwy gynnal noson weithgaredd/gwricwlaidd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn achlysurol er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i rieni fod yn ymwybodol o'r rhaglen addysgu.

**2. Nod**

Bwriad ein hysgol yw cynllunio a darparu rhaglen gynhwysfawr o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau a gwybodaeth addas i'w hoed, aeddfedrwydd a'u datblygiad. Dysgir a chefnogir ein disgyblion i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad ac i ddiogelu eu hunain. Nod ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yw:

- Dysgu am gylch bywyd
- Cadw'n ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i unrhyw ymddygiad annerbyniol posibl gan oedolion a phlant eraill
- Gwahaniaethu rhwng cyffyrddiadau priodol ac amhriodol
- Bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol
- Ddeall pwysigrwydd hylendid personol
- Bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- Adnabod y nodweddion tebyg a'r gwahaniaeth rhwng eu hunain a phlant eraill
- Cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- Deall y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth
- Deall ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill
- Gwerthfawrogi teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth a chydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb

- Bod yn ymwybodol o swyddogaeth a maint cymharol y prif organau bodau dynol

**3. Cyflwyno'r rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

Addysgir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o fewn fframwaith gwerthoedd eang ac ni fydd credoau ac agweddau personol athrawon yn dylanwadu ar yr addysgu. Byddwn yn sicrhau bod yr eirfa a'r termau priodol a gytunwyd yn cael eu defnyddio'n gyson gan athrawon ac unrhyw ymwelwyr sy'n cyfrannu i'r rhaglen.

3.1 Yn y Cyfnod Sylfaen bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno trwy agweddau'r cwricwlwm sef: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywioldeb Diwylliannol a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

3.2 Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ffurfio rhan o ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol gyda gwyddoniaeth ac addysg grefyddol yn cyfrannu at agweddau penodol yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd y Cydlynydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn gyfrifol am gydlynu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yr ysgol ynghyd a darparu cefnogaeth i'r athrawon.

- Bydd athrawon dosbarth fel arfer yn gyfrifol am gyflwyno'r ddarpariaeth.
- Addysgir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i'r dosbarth cyfan. Os oes angen neu'n briodol bydd sesiwn ddilynol i ferched neu fechgyn yn unig.

3.3 Cyflwynir y gwersi drwy:

- Sesiynau Amser Cylch
- Pynciau penodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Pynciau trawsgwricwlaidd
- Gyfleoedd anffurfiol
- Eraill

3.4 Adnoddau a ddefnyddir

- Mat llawr Tyfu i Fyny a'r adnoddau cefnogol perthnasol
- Doliau babanod benywaidd a gwrywaidd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
- Adnoddau Tyfu i Fyny electronig rhyngweithiol i flwyddyn 5 a 6
- DVD Sense Tyfu i Fyny a Chadw'n Ddiogel i flwyddyn 3, 4, 5 a 6
- Eraill

**4. Rheolaeth a threfniant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

4.1 Bydd y corff llywodraethol yn monitro gweithrediad y polisi hwn a'i adolygu bob dwy flynedd neu'n amlach os nodir materion gan ddisgybl, staff, rhieni a neu ganllawiau cenedlaethol/sirol.

4.2 Bydd Pennaeth yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau gweithrediad y polisi a darparu datganiad ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol fel rhan o'i adroddiad blynyddol.
- Sicrhau fod canfyddiadau o arfarniadau staff, rhieni a disgyblion yn cyfrannu at broses hunan arfarnu'r ysgol ac at broses adolygu'r polisi.
- Sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol ar gyfer cyflwyno'r maes yn effeithiol.
- Sicrhau rhannu arferion da, ysgol gyfan, trwy drefniadau arsylwi gwersi a thrafod mewn cyfarfodydd staff er mwyn cyfrannu at broses Hunain Arfarnu'r ysgol.
- Ystyrid cynhwysiad trwy sicrhau na fydd disgyblion sy'n absennol yn colli agweddau pwysig o'r addysgu.
- Hysbysu rhieni os yw eu plentyn wedi colli gwersi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd drwy absenoldeb er mwyn eu hybu i roi'r wybodaeth iddynt eu hunain.

4.3 Bydd y cydlynydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o gynnwys y Polisi hwn
- Sicrhau rhaglen addysgu ysgol gyfan sy'n cael ei gyflwyno ar ddechrau tymor yr Hydref
- Trafod gydag arweinwyr pwnc gwyddoniaeth ac addysg grefyddol i sicrhau fod pob gofynion statudol wedi eu cyflawni

- Monitro ac arfarnu'r rhaglen addysgu a'r adnoddau a ddefnyddir
- Ymgynghori gyda'r disgyblion ar y rhaglen addysgu a'r adnoddau a ddefnyddir
- Ymateb i anghenion hyfforddi staff sy'n cyflwyno'r rhaglen
- Cydlynu cyfraniad ymwelwyr sy'n cefnogi'r rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Sicrhau na fydd athrawon yn aros tan ddiwedd tymor yr haf i gyflwyno Addysg Rhyw a Perthnasoedd i flwyddyn 6, gan fod hyn yn aml yn rhy hwyr i rai disgyblion

4.4 Bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion leisio'u barn ar wersi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r strategaethau dysgu ar ddiwedd y rhaglen drwy:

- Trefnu i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 gael mynediad i holiadur arfarnu Tyfu i Fyny a geir ar lein ar Moodle Cynnal
- Rhoi cyfleoedd iddynt arfarnu'r strategaethau dysgu a'r adnoddau a ddefnyddir.

Mae'r rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ysgol gyfan wedi ei gynllunio o fewn y map cwricwlwm ynghlwm.

**5. Hawliau rhieni i eithrio eu plant:**

Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny o Addysg Rhyw nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Os yw rhiant yn dymuno eithrio eu plentyn o'r cyfan neu ran o'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir bydd rhaid hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig.

Os yw rhieni yn eithrio eu plentyn o'r cyfan neu ran o'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd byddwn yn eu hysbysu o'r angen iddynt ystyried trefniadau eraill i helpu eu plentyn dderbyn y wybodaeth y byddent eu hangen. Os oes gan riant/gofalwyr bryder am gynnwys y rhaglen mae croeso iddynt ddod i'r ysgol i drafod gyda'r Pennaeth/Cydlynydd y maes.

Bydd rhieni yn cael eu hysbysu bod Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno o fewn cyfnod penodol drwy ddosbarthu taflen wybodaeth neu drwy wefan yr ysgol. Y bwriad o wneud hyn yw annog rhieni i drafod gyda'u plentyn adref. Mae'r trefniant yma wedi ei nodi yn llawlyfr / gwefan yr ysgol. (mae taflen ar gael ym mhecyn Tyfu i Fyny)

**6. Gweithdrefnau ar gyfer ymwelwyr ac asiantaethau sy'n cyfrannu at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd:**

- Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ymwelwyr sy'n cyfrannu at y rhaglenni addysgu yn ymwybodol o gynnwys y polisi hwn ac yn cytuno i'w ddilyn.
- Bydd athrawon yn trafod cyfraniadau ymwelwyr cyn iddynt gyflwyno i'r disgyblion er mwyn sicrhau priodoldeb a'u bod yn cydymffurfio a pholisi'r ysgol.

**7. Cyfrinachedd**

Ni all athrawon gynnig cyfrinachedd diamod. Os yw aelod o staff yn clywed/gweld neu amau rhywbeth sy'n awgrymu fod disgybl mewn peryg o niwed neu achosi niwed i eraill byddant yn hysbysu'r aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant.

Os bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau am faterion y tu allan i ffiniau cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd bydd athrawon yn cydnabod y cwestiwn, rhoi ateb cryno iawn os yn briodol ac awgrymu eu bod yn trafod gyda'u rhieni/gofalwyr os hoffent wybod mwy.

Bydd yr athrawon yn trafod cyfrinachedd gyda'r disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffiniau drwy:

- Sefydlu cytundeb/rheolau dosbarth er mwyn gosod ffiniau clir er mwyn atal disgyblion rhag rhannu gwybodaeth bersonol yn y dosbarth a sicrhau bod pawb yn teimlo parch ac yn ddiogel (Cytundeb enghreifftiol ar gael ym mhecyn Tyfu i Fyny).
- Gofynnir i'r disgyblion hŷn i beidio â thrafod cynnwys y gwersi gyda disgyblion iau.
- Os codir cwestiynau o natur bersonol bydd disgyblion yn cael eu hannog i siarad â'u rhieni/gofalwyr.
- Bydd y disgyblion yn cael eu hannog i drafod cynnwys y gwersi gyda'u rhieni/gofalwyr.

**8. Ateb cwestiynau:**

- Bydd athrawon yn ceisio ateb cwestiynau cyffredinol y disgyblion yn onest wrth ystyried eu hoedran a'u haeddfedrwydd.
- Bydd athrawon yn annog y disgyblion i roi eu cwestiynau dienw mewn blwch cwestiynau a bydd cyfle i athrawon baratoi eu hatebion.
- Os nad yw'r athro/athrawes yn methu ateb neu yn gwrthod ateb unrhyw gwestiwn sensitif, anogir y disgybl i siarad gyda'i rhieni/gofalwyr.
- ***Sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol at bwy i fynd os bydd angen cymorth.***

**9. Cyswllt Cynradd Uwchradd**

Byddwn yn hysbysu Cydlynydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd/Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol uwchradd ddalgylch o'r hyn a gyflwynir o fewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ein hysgol er mwyn sicrhau bod dilyniant i'r hyn a gyflwynir yn yr uwchradd.

**10. Adnoddau a ddefnyddir:**

- Mat Llawr a'r adnoddau cefnogol perthnasol
- Adnoddau Tyfu i Fyny
- CD Sense 'Tyfu i Fyny a Chadw'n Ddiogel'

Mynediad i adnodd electronig Tyfu i Fyny:

TIF = Tyfu i Fyny ar gael ar Cynnal Moodle <http://moodle.cynnal.co.uk>. Cliciwch ar Adnoddau Cwricwlaidd, sgrolio i lawr i waelod y dudalen a chlicio ar Ysgolion Iach Gwynedd. Mewngofnodi
neu
www.cynllunysgolioniachgwynedd.org
enw'r defnyddiwr: ysgolioniach
cyfrinair: iach123

Enw'r defnyddiwr - tif661 a rhif personol yr ysgol
Cyfrinair – tif